**RHAGLEN ARIANNU CYNLLUNIAU GWELLA HAWLIAU TRAMWY 2016–17**

**ADRODDIAD ALLBYNNAU DIWEDD Y FLWYDDYN**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau a ganlyn:


| Adran | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cefndir | 3 |
| 2. Cyflawniadau allweddol | 3 |
| 3. Trosolwg ariannol | 4 |
| 4. Camau a gymerwyd: mathau o waith a wnaed | 7 |
| 5. Pwy a ddylai gael budd o'r hyn a wneir | 15 |
| 6. Cyllid i grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o'r cefn gwlad | 18 |
| **Atodiad 1** – Rhestr o amodau ariannu | 21 |

## **Crynodeb Gweithredol**

Mae gofyn i awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHTau) o dan Adran 60 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Maen nhw'n gynlluniau â blaenoriaeth, deng mlynedd o hyd, ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol i bob defnyddiwr: cerddwyr, beicwyr, marchogwyr a defnyddwyr oddi ar y ffordd, ynghyd â phobl â phroblemau golwg a symud.

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo arian i weithredu'r CGHTau hyn rhwng 2008 a 2017 gan ddefnyddio fformiwla ariannu i bob un o'r 22 awdurdod lleol a'r ddau awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhaglen, o'r enw "Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy", wedi'i gweinyddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (a Chyngor Cefn Gwlad Cymru gynt) dros y cyfnod ariannu cyfan.

Defnyddiwyd y cyllid i gyflawni ystod eang ac amrywiol o gamau gweithredu i wella'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru ac i sicrhau budd i bob rhan o'r gymdeithas.

Daw'r holl wybodaeth sydd wedi'i chasglu yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

Pwyntiau allweddol yr adroddiad hwn yw:

- Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad yw'r camau a ariannwyd fwyaf o hyd
- Roedd tueddiad i brosiectau a gyflwynwyd fod o fudd i fwy nag un grŵp
- Mae prosiectau penodol wedi'u cyflwyno i annog mynediad i bawb

## 1. CEFNDIR

Mae gofyn i awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHTau) statudol o dan Adran 60 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.Eu bwriad yw ymdrin â chyfnod o ddeng mlynedd a chynnig cynllun â blaenoriaeth ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol i bob defnyddiwr – sef cerddwyr, beicwyr, marchogwyr a defnyddwyr oddi ar y ffordd ynghyd â phobl â phroblemau golwg a symud.

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £1.7 miliwn y flwyddyn o arian cyfalaf i weithredu CGHTau yn 2008–2009, 2009–2010 a 2010–2011.Yn 2011–2012 a 2012–2013 y dyraniad oedd £1.4 miliwn. Yn 2013–2014, roedd y cyllid yn £1 miliwn gyda'r un swm yn cael ei ddyrannu yn 2014–2015 a 2015–2016. Yn 2016–2017, dyrannwyd £1 miliwn unwaith eto, a daw hyn â chyfanswm y cyllid hyd yma i £11.9 miliwn.

Rhoddwyd y cyfrifoldeb ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru i sefydlu'r Rhaglen Ariannu CGHTau a gweinyddu a rheoli'r broses o ddyrannu arian i awdurdodau lleol. Daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y rôl hon ar 1 Ebrill 2013.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno gwybodaeth a gasglwyd yn uniongyrchol gan bob un o'r 24 awdurdod a ariennir[1] (pob un o'r 22 awdurdod lleol ac awdurdodau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro) ynglŷn â'r gwaith **a wnaed** yn 2016-2017, sef nawfed flwyddyn y Rhaglen Ariannu CGHTau. Yn yr un modd, mae gwybodaeth ariannol ac allbwn yn yr adroddiad hwn yn perthyn i bob un o'r 24 awdurdod sy'n derbyn arian. Lle bo'n briodol, mae data CGHT 2014-2015 a 2015-2016 wedi'i gynnwys er cymhariaeth.

Yn ystod y cyfnod ariannu naw blynedd o hyd, bu nifer o amodau y mae awdurdodau lleol wedi gorfod cadw atynt. Yn ystod 2015-2016, cafodd y rhain eu diwygio gan Lywodraeth Cymru er mwyn eu symleiddio a'u gwella. At ddibenion adrodd, dylid nodi er nad oedd gofyniad bellach i ymgymryd â phrosiect penodol ar gyfer yr hyn a ddiffiniwyd fel "grwpiau defnydd isel: grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o'r cefn gwlad", mae awdurdodau wedi adrodd am brosiectau sydd wedi'u cynnal, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys fel rhan o'r adrodd isod. Am ragor o fanylion am yr amodau ar gyfer 2016-2017, gweler Atodiad 1.

## 2. CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Cyflawniadau allweddol yr ariannu yn 2016–2017 yw:

**a) Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad:**
Defnyddiwyd 76% o'r arian i wella mynediad presennol ar lawr gwlad. Mae hyn yn dilyn y duedd a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol lle mae awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid CGHTau yn bennaf ar gyfer gwaith ymarferol. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at godi cyfran y rhwydwaith sy'n hawdd ei defnyddio. Eto, mae'r gwaith yn cynnwys gwella dodrefn llwybr megis pontydd, gatiau, arwynebau gwell, e.e. gwella systemau draenio'r llwybr a gweithio er mwyn lladd llystyfiant.

**b) Gwelliannau sydd o fudd i fwy nag un grŵp – gan gynnwys cerddwyr, beicwyr a marchogwyr:**
Roedd prosiectau a oedd o "fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" a phrosiectau a oedd o "aml-fudd" (o fudd i fwy nag un math o ddefnyddiwr) i gyfrif gyda'i gilydd am 47% o gyfanswm

[1] *Mae 23 CGHT yn gorchuddio Cymru gyfan. Ers 2009–2010, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sydd â CGHT ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, wedi derbyn cyllid yn uniongyrchol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ac roedd yr adroddiad yn adrodd ar waith a gyflwynwyd ar wahân i'r cyngor.*

gwerth prosiectau, a 36% o gyfanswm gwerth prosiectau a ariannwyd eleni. Dengys hyn fod y Rhaglen Ariannu CGHTau yn cyflwyno camau i nifer o wahanol weithgareddau ac ystodau o allu. Eleni, "aml-fudd gan gynnwys grwpiau defnydd isel" oedd y categori a nodwyd ar gyfer y gwariant fwyaf (fodd bynnag, gostyngodd y gwariant a ddyrannwyd i'r categori hwn o 8.6% o'i gymharu â ffigurau 2015-2016). Bydd y prosiectau hyn yn cael eu targedu'n fwy penodol at fodloni anghenion pobl.

Mae ystod y buddiolwyr y darperir ar eu cyfer gan yr amryw brosiectau hyn yn eang: er enghraifft,

- Roedd 16% o brosiectau aml-fudd yn darparu ar gyfer y grŵp defnyddwyr "cerddwyr, beicwyr a marchogwyr (i lawr o 34% yn 2015–2016)"
- Roedd 8% o brosiectau aml-fudd yn darparu ar gyfer grwpiau "defnydd isel", gan gynnwys defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symudedd, pobl â bygis ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf
- Roedd cerddwyr i gyfrif am 38% o'r camau a gyflawnwyd

Roedd gweddill y prosiectau hyn o fudd i ystod gyfan o ddefnyddwyr mewn cyfuniadau gwahanol, e.e "pobl â phroblemau symudedd a marchogwyr", neu "defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symudedd a'r dall". Cafwyd nifer o wahanol gyfuniadau o ddefnyddwyr.

**c) Gwelliannau sy'n anelu'n benodol at hwyluso mynediad i'r awyr agored i bobl a all ei chael hi'n anodd defnyddio'r awyr agored:**

Fel y crybwyllir uchod, nid oedd unrhyw ofyniad i gyflenwi prosiect penodol ar gyfer "grwpiau defnydd isel". Yn hytrach, roedd angen i'r awdurdodau mynediad gydymffurfio ag egwyddorion mynediad lleiaf cyfyngol a hefyd anelu at gydymffurfio, ble bynnag fo hynny'n bosib, gyda'r arweiniad statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 69 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a gydag arweiniad cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru, "Trwy bob Dull Rhesymol". Er hynny, adroddodd awdurdodau 23 o gamau penodol wedi'u hanelu at hwyluso mynediad i grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o'r cefn gwlad. Roedd y cyllid ar gyfer y prosiectau penodol hyn yn dod i gyfanswm o £128,964.00.

**d) Statws llwybrau a seilwaith gwell:**

Mae 787km pellach o'r rhwydwaith hawliau tramwy bellach yn haws ei ddefnyddio yn dilyn gwelliannau y gwnaeth y Rhaglen Ariannu CGHTau a ffynonellau ariannu eraill gyfrannu atynt yn 2016–2017.

Roedd y rhan fwyaf o'r llwybrau a wellwyd yn 2016–2017 naill ai'n llwybrau troed neu lwybrau ceffylau, ond mae pob math o lwybrau wedi gweld rhywfaint o welliant.

Mae gwybodaeth am y seilwaith a gafodd ei osod a'i dynnu yn nodi bod yr amod mynediad lleiaf cyfyngol yn cael ei weithredu i wneud y rhwydwaith yn gynyddol hygyrch, blwyddyn ar ôl blwyddyn.

## 3. TROSOLWG ARIANNOL

Roedd Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru, unwaith eto, yn llwyddiannus wrth sicrhau ariannu am flwyddyn bellach o'r Rhaglen Ariannu CGHTau yn 2016–2017 gyda chyllideb o £1 miliwn. Gweithiodd Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli'r gyllideb i sicrhau cymaint o wariant o fewn y prosiect â phosibl a chyflawnwyd cyfanswm gwariant o **£999,457** (99.5% o wariant y gyllideb).

Dyrannwyd ariannu Llywodraeth Cymru ar sail fformiwla ariannu y cytunwyd arni, a oedd yn cynnwys swm sylfaenol o £25,000 ar gyfer pob awdurdod gyda'r ariannu ychwanegol yn cael ei ddyrannu ar sail fformiwla. O fewn pob awdurdod, cyfrifwyd y fformiwla ar sail pwysoliad o 65% ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus (gan gynnwys hawliau tramwy yn y parth arfordirol), 25% ar boblogaeth arferol (a ddiweddarwyd gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011), a 10% ar ardal tir mynediad.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig gwybodaeth am yr £1 miliwn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Ariannu CGHTau. Yn ychwanegol, buddsoddodd awdurdodau lleol eu hariannu eu hunain a sicrhau mynediad at ffynonellau ariannu eraill. Dengys Tabl 1 isod gyfanswm yr arian a wariwyd ar gamau gweithredu CGHT y tu hwnt i ariannu'r Llywodraeth Cymru, ac mae'n cymharu'r ffigurau hyn gyda gwariant 2015-2016.

**Tabl 1:** Cyfanswm y cyllid ar gyfer camau gweithredu'r Rhaglen Ariannu CGHTau **yn 2016–2017**

| Sefydliad | Swm y cyllid (£) 2016–2017 | Swm y cyllid (£) 2015–2016 | Swm y cyllid (£) 2014–2015 |
|---|---|---|---|
| **Cyllid Llywodraeth Cymru** | 1,000,000 | 1,000,000 | 1,000,000 |
| **Gwariant gan awdurdodau lleol** | 89,502 | 97,248 | 150,366 |
| **Ffynonellau ariannu eraill*** | £31,900 | 52,538 | 173,134 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Ariannu CGHTau (£)** | **£1,121,402** | **£1,149,786** | **£1,323,500** |

**Gwariant gan awdurdodau lleol**

Mae hwn yn cyfeirio at gyfanswm yr arian y mae'r awdurdodau wedi cyfrannu o'u cronfeydd eu hunain y tu hwnt i ddyraniad y Rhaglen Ariannu CGHTau ar gyfer 2016–2017 (ac eithrio costau staff).

***Ffynonellau ariannu eraill:**

Gofynnwyd i awdurdodau adrodd hefyd ar ffynonellau ariannu eraill yr oeddynt yn gallu tynnu arnynt yn ychwanegol at y ddwy brif ffynhonnell ar gyfer camau gweithredu CGHT.

Roedd ffynonellau ariannu eraill yn gwneud cyfanswm o £31,900 ac yn cynnwys:

- Eu cyllideb refeniw eu hunain
- Cerdded er Iechyd
- Cadw
- Cwmni Nod Glas
- Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro

Dylid defnyddio peth gofal wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol (oherwydd bod rhai awdurdodau yn defnyddio'u cyllid eu hunain o dan y categori “ffynonellau ariannu eraill”). Mae gwariant gan awdurdodau lleol ar brosiectau yr adroddwyd amdanynt o dan y Rhaglen Ariannu CGHTau wedi gostwng er 2014–2015 (£150,366) ac, yn 2015–2016, gostyngodd eto i £89,502.

Mae'n amlwg bod “ffynonellau ariannu eraill” wedi gostwng yn sylweddol ers 2012–2013 (£601,437

bryd hynny). Mae gostyngiad cyffredinol mewn cyfraniadau o fannau eraill yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd gyfredol a gostyngiad cyffredinol mewn cyllidebau a staff mewn awdurdodau lleol.

**Rheoli cyllid:**

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd yn rhaid i'r awdurdodau sicrhau bod 40% o gyllid yn cael ei hawlio erbyn yr ail ddyddiad cau ar gyfer hawlio (Rhagfyr 2016) i gynorthwyo wrth reoli cyllidebau ac i'n helpu ni i sicrhau bod yr holl arian yn cael ei ddefnyddio cyn diwedd y flwyddyn. Gwnaeth pob awdurdod oni bai am ddau fodloni'r gofyniad hwn (Sir Ddinbych 39.1% a Rhondda Cynon Taf 38.6%).Fodd bynnag, hawliwyd 58% o gyllideb gyfan y Rhaglen Ariannu CGHTau erbyn mis Rhagfyr 2016, sy'n sylweddol uwch na'r amod o 40%.

Dengys Tabl 2 isod y cynigion ariannu ar gyfer 2016–2017. Gwnaeth yr holl awdurdodau reoli eu cyllidebau yn dda, felly nid oedd angen ailddyrannu cyllid rhwng awdurdodau.

**Tabl 2: Cynigion ariannu a'r cyfanswm a hawliwyd yn 2016–2017**

| Awdurdod | Cynnig ariannu (£) | Diwygiadau ariannu | Cyfanswm a hawliwyd (£) |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 33,585 | 0 | 33,585 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 26,786 | 0 | 26,786 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 49,918 | 0 | 49,918 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 32,965 | 0 | 32,965 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 37,480 | 0 | 37,480 |
| Cyngor Caerdydd | 37,103 | 0 | 37,103 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 54,607 | 0 | 54,607 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 53,521 | 0 | 53,505 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 47,410 | 0 | 47,410 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 40,022 | 0 | 40,022 |
| Cyngor Sir y Fflint | 37,699 | 0 | 37,699 |
| Cyngor Gwynedd | 76,594 | 0 | 76,594 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 23,931 | 0 | 23,931 |
| Cyngor Sir Fynwy | 41,304 | 0 | 41,304 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 35,056 | 0 | 35,056 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 29,682 | 0 | 29,682 |
| Cyngor Sir Penfro | 23,864 | 0 | 23,864 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 23,864 | 0 | 23,864 |
| Cyngor Sir Powys | 122,668 | 0 | 122,668 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 39,519 | 0 | 39,519 |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | 37,286 | 0 | 37,284 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 28,334 | 0 | 27,968 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 31,136 | 0 | 31,136 |
| Cyngor Wrecsam | 35,666 | 0 | 35,508 |
| **Cyfanswm** | **£1,000,000** | **0** | **£999,458** |

## 4. CAMAU A GYMERWYD: MATHAU O WAITH A WNAED

TROSOLWG


Mae ystod y gwaith y gellir ei gynnal i weithredu CGHTau yn eang. Grwpiodd yr awdurdodau eu camau gweithredu yn unol â 'Mathau o Gamau'r Rhaglen' y cytunwyd arnynt. Mae dadansoddiad o nifer a gwerth y gwahanol grwpiau gweithredu hyn yn rhoi gwybodaeth am y math o waith mae awdurdodau yn ei wneud.

Dosbarthwyd y camau fel a ganlyn:

a) **Gwella mynediad llinellol presennol:** gwelliannau ffisegol i lwybrau, e.e. gwella arwyneb llwybrau, gosod neu atgyweirio camfeydd, gatiau a dodrefn llwybr eraill.
b) **Creu mynediad llinellol newydd:** creu'r seilwaith ffisegol ar gyfer llwybrau newydd.
c) **Gwella cyfleoedd mynediad eraill:** er enghraifft, gwelliannau i gael mynediad at dir/man gwyrdd naturiol arall.
d) **Gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir:** er enghraifft, arwyddion a chyfeirbwyntiau, ar y safle (e.e. paneli dehongli), oddi ar y safle (e.e. taflenni), gwefan, digwyddiadau a marchnata.
e) **Gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol:** er enghraifft, systemau ar gyfer cynnal a chadw, gorfodi, monitro ac adrodd.
f) **Gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer rheoli gwaith mynediad llinellol:** er enghraifft, sicrhau bod y map diffiniol yn gyfredol, creu map diffiniol digidol, neu ddatblygu/gwella system rheoli hawliau tramwy cyhoeddus yn electronig.
g) **Dadansoddiad ymhellach o fynediad llinellol:** er enghraifft, arolwg/dadansoddiad ychwanegol o ddarpariaeth mynediad neu ddadansoddiad ychwanegol o ddefnydd mynediad.
h) **Mathau eraill o gamau gweithredu:** ble nad oedd unrhyw un o'r uchod yn gymwys.

Dengys **Siart 1** a **Thabl 3** isod ddadansoddiad o werth y camau gweithredu (£) a gyflenwyd yn 2016–2017, ac mae'n cymharu'r rhain â gwerthoedd 2015–2016 a 2014–2015. Darperir dadansoddiad manwl o'r sawl a gafodd y budd o'r camau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

**Siart 1**



| Math gweithredu'r rhaglen | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r dyraniad 2016–2017 | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r dyraniad 2015–2016 | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r dyraniad 2014–2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) gwella mynediad llinellol presennol | 135 | 756,883 | 75.7 | 127 | 762,183 | 76.24 | 132 | 760,505 | 76.06 |
| b) creu mynediad llinellol newydd | 12 | 52,321 | 5.2 | 12 | 26,492 | 2.65 | 11 | 31,975 | 3.20 |
| c) gwella cyfleoedd mynediad eraill | 9 | 30,271 | 3.0 | 6 | 34,922 | 3.49 | 12 | 65,760 | 6.58 |
| d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir | 20 | 67,138 | 6.7 | 16 | 43,245 | 4.33 | 17 | 37,950 | 3.80 |
| e) gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol | 3 | 5,984 | 0.6 | 4 | 16,920 | 1.69 | 3 | 16,098 | 1.61 |
| f) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer rheoli mynediad llinellol | 13 | 46,508 | 4.7 | 8 | 83,151 | 8.32 | 7 | 60,711 | 6.07 |
| g) dadansoddiad ymhellach o fynediad llinellol | 3 | 16,442 | 1.7 | 3 | 6,843 | 0.68 | 1 | 3,733 | 0.37 |
| h) arall | 6 | 23,912 | 2.4 | 9 | 26,008 | 2.60 | 5 | 23,182 | 2.32 |
| **Cyfanswm** | **201** | **£999,458** | **100** | **185** | **£999,764** | **100** | **188** | **£999,914** | **100** |

Yn 2016–2017, roedd 76% o'r prosiectau yn ymwneud â gwella mynediad llinellol presennol. Mae hyn yn dilyn y duedd o flynyddoedd blaenorol, sef bod y rhan fwyaf o ddyraniad y Rhaglen Ariannu CGHTau ar gyfer gwaith ymarferol ar lawr gwlad. Os yw awdurdodau yn dewis mwy nac un Math Gweithredu, mae'r rhain yn cael eu dosbarthu yn h) "Arall" – gweler tudalen 13 am fanylion pellach.

**ALLBYNNAU A MANYLION**

Gan ystyried pob un o'r mathau gweithredu hyn yn eu tro, gallwn edrych yn fanylach ar nodweddion y gwaith a gyflenwyd. Mae Tablau 4 i 14 yn rhoi dadansoddiad pellach o'r mathau gweithredu uchod.

**Gwella mynediad llinellol presennol a chreu mynediad llinellol newydd (mathau gweithredu "a" a "b")**

Mae £809,207.91 wedi'i wario ar wella mynediad llinellol presennol ac mae'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn debyg iawn i flynyddoedd blaenorol megis:

- Cynnal gwaith gwella arwyneb sy'n cynnwys gwaith draenio a rhoi arwyneb newydd
- Gwelliannau mynediad i'r llwybr troed i gynnwys newid camfeydd am gatiau mochyn a phontydd newydd
- Creu llwybrau cylchol yn y parth arfordirol sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru
- Tynnu camfeydd ac atalfeydd sy'n rhwystro mynediad i ddefnyddwyr trwy dynnu camfeydd yn benodol, ar hyd llwybrau a hyrwyddir a llwybrau o arwyddocâd lleol
- Gatiau sy'n cau eu hunain i ddisodli camfeydd, ac arwyddion a chyfeirbwyntiau
- Gwella mynediad at lwybrau amlddefnydd, gan ganiatáu i bobl â phroblemau symudedd i gael mynediad at lwybrau yn haws er enghraifft
- Rhaglen cynnal a chadw ar y rhwydwaith llwybrau a hyrwyddir mewn partneriaeth â sefydliadau

Roedd 12 prosiect a greodd mynediad llinellol newydd. Ymhlith yr enghreifftiau ohonynt y mae:

- Creu llwybr troed cyhoeddus newydd ar ymyl pentref Solfach (Sir Benfro)
- Creu llwybr troed newydd er mwyn cynnig cysylltiadau fel rhan o ddatblygiad preswyl newydd yn Llansanffraid ar Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr)
- Agor llwybr atgyfeirio newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys gosod dwy bont newydd a gatiau mochyn newydd

Dengys Tabl 4 isod hyd y llwybrau a gafodd ei wella i fodloni safonau "Hawdd eu Defnyddio" dangosydd meincnod Cymru,[2] ac mae'n cymharu'r rhain gyda'r gwelliannau a wnaed mewn cilomedrau yn 2014–2015. Gofynnwyd i awdurdodau adrodd am gyfanswm hyd y llwybr a gafodd ei wella ar sail cysylltiadau – gyda'r diffiniad bod cysylltiad hawl tramwy cyhoeddus yn dechrau ac yn gorffen ble mae'n cwrdd â:

- chyffordd gyda hawl tramwy cyhoeddus arall
- ffordd fetlin
- pengaead

Roedd hyn er mwyn dangos faint o'r rhwydwaith a oedd bellach yn "*hawdd ei ddefnyddio*" gan y cyhoedd o ganlyniad i welliannau, ac nid hyd y llwybrau yr oedd gwaith ffisegol wedi'i wneud arno yn unig. **Ni ddylai** cyfanswm yr hyd hwn gael ei briodoli i waith a chyllid o dan y Rhaglen Ariannu CGHTau yn unig. Yn hytrach, mae'r Rhaglen Ariannu CGHTau wedi cyfrannu at hyn, ynghyd â sefydliadau a ffynonellau ariannu eraill (awdurdodau lleol eu hunain yn bennaf).

[2] Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol yn flaenorol – nid yw'r dangosydd ei hun yn cael ei gasglu erbyn hyn gan bob awdurdod ac nid yw'r canlyniadau bellach ar gael yn gyhoeddus.

**Tabl 4: Statws a hyd y llwybr y mae'r Rhaglen Ariannu CGHTau wedi helpu i'w wneud yn *"hawdd ei ddefnyddio"* yn ystod 2016–2017, 2015–2016 a 2014–2015 (gan gynnwys cyfraniadau o ffynonellau ariannu eraill)**

| | Km o rwydwaith yn "hawdd ei ddefnyddio" 2016–2017 | Km o rwydwaith yn "hawdd ei ddefnyddio" 2015–2016 | Km o rwydwaith yn "hawdd ei ddefnyddio" 2014–2015 |
|---|---|---|---|
| Llwybrau troed | 545.4 | 634 | 475 |
| Llwybrau beicio | 32.4 | 28 | 24 |
| Llwybrau ceffylau | 182.2 | 181 | 216 |
| Cilffyrdd cyfyngedig | 15.5 | 36 | 25 |
| Cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig | 11.4 | 28 | 54 |
| **Cyfanswm** | **786.8km** | **907km** | **794km** |

Dengys Tabl 4 (uchod) mai llwybrau troed yw'r math mwyaf cyffredin o lwybr i'w wella o bell ffordd, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod rhwydwaith Cymru yn cynnwys llwybrau troed yn bennaf (79%).[3]Dengys dadansoddiad o'r wybodaeth hon fod y llwybrau gwell hyn wedi'u dosbarthu ar draws Cymru.
Mae Tabl 5 a Thabl 6 yn cynnig gwybodaeth am waith ar y seilwaith o dan y Rhaglen Ariannu CGHTau. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae mwy o gatiau wedi'u gosod/disodli na chamfeydd, ac mae mwy o gamfeydd wedi'u tynnu. Mae hyn yn arwydd bod awdurdodau yn cadw at yr amod i gymhwyso egwyddorion mynediad lleiaf cyfyngol, sy'n galluogi i gynifer o bobl â phosibl ddefnyddio'r llwybrau sy'n cael eu gwella.

Dengys y seilwaith sydd wedi'i osod yn Nhabl 5.

**Tabl 5: Seilwaith wedi'i osod o'r newydd neu wedi'i ddisodli o dan Raglen Ariannu CGHTau 2016–2017**

| Seilwaith newydd / sydd wedi'i ailosod | Nifer yr eitemau 2016–2017 | Nifer yr eitemau 2015–2016 | Nifer yr eitemau 2014–2015 |
|---|---|---|---|
| Camfeydd | 48 | 62 | 84 |
| Gatiau | 641 | 476 | 532 |
| Pontydd | 39 | 59 | 101 |
| Mynegbyst | 355 | 308 | 272 |
| Pyst cyfeirbwyntiau | 199 | 346 | 294 |
| **Cyfanswm** | **1,282** | **1,251** | **1,283** |

**Tabl 6: Seilwaith wedi'i dynnu o dan Raglen Ariannu CGHTau 2015–2016**

| Seilwaith wedi'i dynnu | Nifer yr eitemau 2016–2017 | Nifer yr eitemau 2015–2016 | Nifer yr eitemau 2014–2015 |
|---|---|---|---|
| Camfeydd | 168 | 96 | 97 |
| Gatiau | 11 | 16 | 31 |
| **Cyfanswm** | **179** | **112** | **128** |

**Camau gweithredu sy'n rhan o lwybr rhanbarthol / sy'n cysylltu â Llwybr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru**

[3] Adroddiad Ymchwil Polisi Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Rhif03/05 – Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002

Gofynnwyd i awdurdodau ddatgan ble'r oedd camau gweithredu a) a b) yn cynnwys gwaith ar lwybr rhanbarthol, neu ar gysylltiadau â Llwybr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru.

O'r £809,208 a wariwyd ar fynediad llinellol, dengys y tabl isod fod 49% o hyn (£398,924) wedi'i ddefnyddio ar lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo mewn rhyw ffordd. Mae hyn yn tynnu sylw at y pwysigrwydd y mae awdurdodau yn ei roi ar gynnal a chyfoethogi eu llwybrau blaenllaw.

**Tabl 7: Camau gweithredu sy'n rhan o lwybr rhanbarthol / sy'n cysylltu â Llwybr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru yn 2016–2017**

| Math o lwybr | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwybr rhanbarthol | 11 | 57,502 | 14 | 14 | 70,110 | 22 | 13 | 73,713 | 25 |
| Llwybr Arfordir Cymru | 11 | 63,819 | 16 | 7 | 27,147 | 8 | 10 | 70,789 | 24 |
| Llwybr Cenedlaethol | 3 | 20,367 | 5 | 4 | 30,085 | 9 | 3 | 37,225 | 12 |
| Arall | 15 | 257,236 | 64 | 30 | 198,393 | 61 | 22 | 116,698 | 39 |
| **Cyfanswm** | **40** | **£398,924** | **100** | **55** | **£325,735** | **100** | **48** | **£298,425** | **100** |

Cafodd y rhan fwyaf o brosiectau "eraill" eu hyrwyddo'n lleol, gan gynnwys llwybrau cymunedol. Ymhlith yr enghreifftiau o'r math o brosiectau a oedd wedi'u cynnwys o dan y categori "arall" oedd:

- Gwelliannau i hawliau tramwy cyhoeddus sy'n cysylltu Llwybr Arfordir Cymru, llwybrau rhanbarthol a llwybrau eraill a enwebwyd
- Mae'r llwybr yn ffurfio rhan o lwybr lleol a hyrwyddir Darganfod Dyfi, a ariennir gan y prosiect Cymunedau a Natur

**<u>Math o gam gweithredu c) gwella cyfleoedd mynediad eraill</u>**

Yn ychwanegol at hawliau tramwy lleol, dylai CGHTau gynnwys gwybodaeth am fathau mynediad eraill o fewn ardal yr awdurdod. Dangosodd Adolygiad o CGHTau Cyngor Cefn Gwlad Cymru [4] fod 4% o holl gamau gweithredu CGHT yn perthyn i dir mynediad a ddynodwyd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a bod 6% yn ymwneud â chyfleoedd mynediad eraill. Nodir y mathau hyn o gamau gweithredu o dan y Rhaglen Ariannu CGHTau yng nghategori c) gwella cyfleoedd mynediad eraill. Dengys Tabl 8 isod y mathau eraill o gyfleoedd mynediad a gafodd eu gwella yn 2016–2017, y cafodd 3% o'r ariannu cyffredinol ei ddyrannu iddynt i wella mynediad arall, gan adlewyrchu'r pwyslais sy'n cael ei roi ar fynediad llinellol yn y CGHTau eu hunain.

[4] Adroddiad Ymchwil Polisi Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Rhif 08/26, Evison, Taylor a Coleman (2009), *Adolygiad CGHT Cymru.*

**Tabl 8: Mathau o fynediad a gafodd eu gwella o dan gategori c) gwella cyfleoedd mynediad eraill 2016–2017**

| Math o fynediad | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 | camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mannau gwyrdd naturiol | 2 | 8,546 | 28 | 5 | 29,500 | 84 | 2 | 2,638 | 4 |
| Tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Arall | 6 | 21,724 | 72 | 1 | 5,422 | 16 | 9 | 63,122 | 96 |
| **Cyfanswm** | **9** | **£30,270** | **100** | **6** | **£34,922** | **100** | **12** | **£65,760** | **100** |

O'r chwe phrosiect “arall”, roedd enghreifftiau’n cynnwys:

- Mynediad at safle hanesyddol Cadw (Cyngor Sir Benfro)
- Gwella mynediad at lwybrau amlddefnydd, gan ganiatáu i bobl â phroblemau symudedd gael mynediad at lwybrau yn haws (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)
- Datblygu grwpiau gwirfoddoli, gan gynnwys prynu offer a deunyddiau (Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)

**Math o gam gweithredu d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir**

Roedd y math gweithredu hwn wedi'i restru'n ail (o ran nifer y camau gweithredu) ac i gyfrif am 6.7% o'r dyraniad ariannol cyffredinol eleni. Mae'r math hwn o gam gweithredu wedi bod yn ddefnydd cyson boblogaidd o ariannu yn ystod oes y rhaglen. Dangosodd Adolygiad CGHT Cyngor Cefn Gwlad Cymru mai “gwaith hyrwyddo oddi ar y safle” oedd yr ail fath gweithredu arfaethedig mwyaf cyffredin ar ôl “rheoli”. Mae hwn yn fath o gam gweithredu y gellir ei gyflenwi ar gost gweddol isel ac mae hefyd yn hanfodol i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn hamdden awyr agored gan fod hyrwyddo llwybrau yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr fod y llwybrau hyn ar agor ac ar gael. Fodd bynnag, yn 2016-2017 nodwyd lleihad amlwg o ran yr arian a ddefnyddiwyd ar gyfer hyrwyddo oddi ar y safle.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r mathau o wybodaeth a gwaith hyrwyddo a ariannwyd.

**Tabl 9: Math o gam gweithredu d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir 2015–2016**

| Math o wybodaeth | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 | camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oddi ar y safle | 2 | 959 | 1 | 7 | 12,500 | 29 | 8 | 7,376 | 19 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arwyddion a chyfeirbwyntiau | 3 | 10,110 | 15 | 2 | 6,481 | 15 | 1 | 2,472 | 7 |
| Digwyddiadau | 3 | 3,604 | 5 | 2 | 7,147 | 17 | 1 | 3,485 | 9 |
| Ar y safle | 1 | 1,129 | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3,000 | 8 |
| Gwefan | 2 | 5,000 | 7 | 1 | 5,408 | 13 | 0 | 0 | 0 |
| Gwybodaeth arall a mentrau hyrwyddo | 2 | 12,710 | 19 | 4 | 11,709 | 27 | 6 | 21,617 | 57 |
| Marchnata | 4 | 21,439 | 32 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ymchwil | 1 | 1,246 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 2 | 10,941 | 19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **20** | **£67,138** | **100** | **16** | **£43,245** | **100** | **17** | **£37,950** | **100** |

Mae digwyddiadau sy'n dylunio ac yn hyrwyddo'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol yn chwarae rhan bwysig wrth geisio annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored. Maen nhw'n cynnig ffordd o ryngweithio â defnyddwyr newydd a phresennol trwy sgwrsio â hwy a dysgu beth y mae'r defnyddwyr ei eisiau ac yn ei ddisgwyl gan eu rhwydwaith hawliau tramwy lleol. Mae digwyddiadau hefyd yn cynnig cyfle perffaith i hyrwyddo'r hyn sydd ar gael i'w fwynhau ar hyn o bryd.

**Tabl 10: Math o gam gweithredu e) gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol 2016–2017**
Mae sicrhau bod mynediad llinellol yn cael ei reoli mewn ffordd briodol a gwybodus yn hanfodol i gael rhwydwaith hawliau tramwy sy'n cael ei gynnal yn dda. Mae'r tabl isod yn dangos y gwaith sy'n cael ei wneud o dan y Rhaglen Ariannu CGHTau sy'n perthyn i systemau a phrosesau ar gyfer gwella gwaith rheoli.

**Tabl 10: Math o gam gweithredu e) gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol 2016–2017**

| Math o gam gweithredu | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) | camau gweithredu (£) fel % o'r | Nifer y camau gweithredu | Gwerth y camau gweithredu (£) | camau gweithredu (£) fel % o'r | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) | camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adrodd | 0 | 0 | 0 | 1 | 3,388 | 20 | 0 | 0 | 0 |
| Monitro | 0 | 0 | 0 | 1 | 4,000 | 24 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnal a chadw | 1 | 695 | 12 | 0 | 0 | 0 | 3 | 16,098 | 100 |
| Gorfodi | 1 | 1,693 | 28 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 1 | 3,596 | 60 | 2 | 9,531 | 56 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **£5,984** | **100** | **4** | **£16,920** | **100** | **3** | **£16,098** | **100%** |

Mae’r camau gweithredu'n cynnwys:

- Prynu rhwystr sy'n gyfeillgar i geffylau ar gyfer lôn werdd Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (Cyngor Dinas Casnewydd)

- Cynnal a chadw ar hawl tramwy cyhoeddus, gan gynnwys cyfeirbwyntiau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)

**Tabl 11: Math o gam gweithredu f) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer rheoli mynediad llinellol 2016–2017**

| Math o gam gweithredu | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | camau gweithredu (£) fel % o'r | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu 2014–2015 | camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dwyn ynghyd y map diffiniol | 7 | 34,951 | 75 | 6 | 45,915 | 55 | 4 | 44,712 | 74 |
| Datblygu/gwella system rheoli electronig hawliau tramwy cyhoeddus | 1 | 5,482 | 12 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1,425 | 2 |
| Creu map diffiniol digidol | 5 | 6,075 | 13 | 1 | 13,256 | 16 | 1 | 10,579 | 17 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 1 | 23,980 | 29 | 1 | 3,945 | 7 |
| **Cyfanswm** | **13** | **£46,508** | **100** | **8** | **£83,151** | **100** | **7** | **£60,661** | **100** |

Mae gwaith ar y map diffiniol wedi parhau yn 2016–2017, gyda lefel gyson o fewnbwn wrth sicrhau bod y map diffiniol yn gyfredol yn ystod y cyfnod ariannu naw mlynedd o hyd. Mae hyn yn dangos bod y math gweithredu hwn yn parhau i fod yn sail i reoli hawliau tramwy ac yn nodwedd barhaus ar CGHTau.

Defnyddiwyd 10% o'r arian a ddyrannwyd i wella mapiau diffiniol, cofnodion a chronfeydd data er mwyn gwneud y defnydd gorau o reolaeth electronig CAMS fel teclyn system gwybodaeth ddaearyddol digidol er mwyn cynnal y map diffiniol.

**Tabl 12: Math o gam gweithredu g) cyflwyno dadansoddiad ychwanegol o fynediad llinellol 2016–2017**

| Math o dadansoddiad | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2016– | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2015– | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 | gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2014– |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arolwg/dadansoddiad ychwanegol yn ymwneud â darparu mynediad | 2 | 14,162 | 86 | 3 | 6,843 | 100 | 1 | 3,733 | 100 |
| Arall | 1 | 2,280 | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **£16,442** | **86** | **3** | **£6,843** | **100** | **1** | **£3,733** | **100** |

Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r arian a ddyrannwyd ar gyfer y cam gweithredu hwn er mwyn dadansoddi'r defnydd o'r rhwydwaith hawliau tramwy gan y rhai sy'n gwneud defnydd isel o hawliau tramwy cyhoeddus. Roedd enghraifft o'r dull hwn yn cynnwys trefnu seminar i ystyried arferion gorau (Cyngor Sir Fynwy).

**Tabl 13: Math o gam gweithredu h) arall 2016–2017**

| | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2016– | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2015– | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 | gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2014– |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | 6 | 23,912 | 100 | 9 | 26,008 | 100 | 5 | 23,182 | 100 |
| **Cyfanswm** | **6** | **£23,912** | **100** | **9** | **£26,008** | **100** | **5** | **£23,182** | **100** |

Roedd y camau gweithredu a nodwyd fel "arall" yn cynnwys mwy nag un math o gam gweithredu, e.e. roedd gan rai prosiectau elfen o gam gweithredu a) gwella mynediad llinellol, ynghyd â math o gam gweithredu d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir. Gan hynny, roedd yn anodd neilltuo'r cam gweithredu penodol hwnnw o fewn y meini prawf presennol ar gyfer mathau gweithredu.

Enghreifftiau o'r prosiectau "arall" hyn yw:

- Prosesu deg o geisiadau gorchymyn addasu mapiau diffiniol
- Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr fel rhan o ail-alinio/ailosod hawl tramwy cyhoeddus ac yn dilyn cais gan y cyngor cymuned
- Cynyddu'r ddarpariaeth o lwybrau ceffylau fel rhan o ail-alinio/ailosod hawl tramwy cyhoeddus
- Diweddaru'r copi digidol o'r map diffiniol, gan ystyried yr holl orchmynion/cyflwyniadau a gadarnhawyd / a lofnodwyd ers 2004 i greu copi gwaith newydd o'r map diffiniol a darparu map sylfaen ar gyfer diweddaru'r map diffiniol yn y dyfodol
- Gwaith i wella'r arwyneb ar ran o Lwybr Troed 23C Maesteg (gan gynnwys grisiau newydd), er mwyn annog pobl i fynd i Safle Coetir Cymunedol Llynfi

- Cynnal gwaith paratoi ar gyfer adolygu CGHTau (e.e. arolygon helaeth ar gyflwr llwybrau, ymchwiliadau o ran y ddarpariaeth bresennol o a gofynion y dyfodol ar gyfer arwyddion a strwythurau, a hygyrchedd llwybrau ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd)

**Tabl 14: Camau a oedd yn cynnwys elfen bioamrywiaeth 2016–2017**

Roedd amrywiaeth o brosiectau a gynorthwyodd ddealltwriaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth leol neu gadwraeth bioamrywiaeth leol. Er nad oedd gofyniad yn 2015-2016 i bob awdurdod gynnal prosiect penodol (yn hytrach, roedd gofyniad cyffredinol i gadw at ddyletswyddau cadwraeth), lle'r oedd awdurdodau wedi adrodd am brosiectau o'r fath, mae hyn wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad.

**Tabl 14: Camau a oedd yn cynnwys elfen bioamrywiaeth 2016 00103}–2017**

| Math o gamau bioamrywiaeth | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 | gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prosiectau bioamrywiaeth | **22** | **110,247** | **100** | 32 | 165,154 | 100 | 32 | £200,724 | 100 |
| **Cyfanswm** | **22** | **£110,247** | **100** | **32** | **£165,154** | **100** | **32** | **£200,724** | **100** |

Mae "prosiectau bioamrywiaeth" yn cyfeirio at gamau sy'n gwella mynediad ac sydd o fudd i gadwraeth natur/bioamrywiaeth hefyd.

Mae gan y camau hyn elfen ymgysylltiad â'r cyhoedd iddynt o ran mae aelodau'r cyhoedd yn dysgu am fioamrywiaeth leol ar y llwybrau y maen nhw'n eu defnyddio. Gellir cyflawni hyn ar ffurf byrddau dehongli ar bwyntiau allweddol ar hyd y llwybr, neu ar bwyntiau mynediad i warchodfa natur leol neu daflenni am fflora a ffawna lleol a ddosbarthir mewn ffeiriau sirol neu mewn ysgolion.

Mae rhai o'r camau gweithredu bioamrywiaeth hyn yn debyg iawn i fath gweithredu d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir, ble'r oedd gwaith a gyflwynwyd o dan y math hwn o weithredu yn cynnwys paneli dehongli, taflenni a digwyddiadau.

Ymhlith yr enghreifftiau y mae: -

- Gwaith i wella'r arwyneb ar ran o Lwybr Troed 23C Maesteg (gan gynnwys grisiau newydd), er mwyn annog pobl i fynd i Safle Coetir Cymunedol Llynfi

- Datblygu ymgyrch er mwyn gwella ymwybyddiaeth ymysg defnyddwyr ac agweddau tuag at fynediad cyfrifol a pharchu ei gilydd a safleoedd treftadaeth a chadwraeth y mae hawl gan y cyhoedd fynd iddynt

- Cynnal rhaglen o weithgareddau sy'n hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r rhwydwaith hawliau tramwy a'r cefn gwlad yn gyffredinol. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys datblygu'r map rhyngweithiol ymhellach, teithiau tywys, a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth.

## 5 PWY A DDYLAI GAEL BUDD O'R HYN A WNEIR

Gofynnwyd i awdurdodau nodi pwy a ddylai gael budd o bob cam gweithredu.

**Mae Tabl 15isod yn dangos prif fuddiolwyr y Rhaglen Ariannu CGHTau - mae hyn yn cynnwys yr holl gamau gweithredu a ariannwyd gan y Rhaglen Ariannu CGHTau a'r holl fuddiolwyr yn 2016-2017 (gweler hefyd Siart 2 isod).**

| Buddiolwyr | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2016–2017 | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2015–2016 | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2014–2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aml-fudd (gan gynnwys grwpiau defnydd isel) | 62 | 414,011 | 41.4 | 70 | 498,733 | 50 | 68 | 478,116 | 48 |
| Cerddwyr | 95 | 377,930 | 37.8 | 93 | 376,795 | 38 | 89 | 329,356 | 33 |
| Defnyddwyr anabl a phobl â phroblemau symudedd | 17 | 112,277 | 11.2 | 10 | 79,699 | 8 | 10 | 69,520 | 7 |
| Marchogwyr | 3 | 6,454 | 0.6 | 5 | 22,667 | 2.3 | 2 | 7,465 | 0.7 |
| Budd cyffredinol i bob defnyddiwr | 11 | 54,308 | 5.4 | 5 | 15,890 | 2 | 8 | 52,786 | 5 |
| Eraill | 2 | 4,095 | 0.4 | 1 | 4,897 | 0.5 | 5 | 35,455 | 4 |
| Cerddwyr/tir feddianwyr | 1 | 1,129 | 0.1 | 1 | 1,084 | 0.1 | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddwyr cerbydau | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2,472 | 0.2 |
| Pobl ifanc, teuluoedd, cerddwyr, defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symudedd | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 14,249 | 1 |
| Grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o’r cefn gwlad | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 10,495 | 1 |
| Pob defnyddiwr | 10 | 29,254 | 2.9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **201** | **£999,458** | **100.0** | **185** | **£999,765** | **100** | **188** | **£999,914** | **100** |

Yn rhaglen eleni, roedd 5.4% o'r camau gweithredu o "fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" ac roedd 41.4% yn "aml-fudd", h.y. o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr. Gyda'i gilydd, roedd y prosiectau hyn i gyfrif am 46.8% o gyfanswm gwerth yr arian eleni.

Yma, yn yr un modd ag Adolygiad CGHT Cymru (2009) ac mewn blynyddoedd blaenorol, y grŵp unigol mwyaf o ddefnyddwyr sy'n debygol o gael budd o'r camau gweithredu yw cerddwyr, sy'n adlewyrchu'r ffordd mae llwybrau troed i gyfrif am y rhan fwyaf o'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru. Hefyd, nid yw'n bosibl i grwpiau defnyddwyr eraill gael budd penodol yn yr un modd â cherddwyr, oherwydd y bydd gwelliannau i lwybrau ceffylau a llwybrau beicio hefyd o fudd i gerddwyr a chan hynny byddant yn "aml-fudd" yn eu hanfod. Roedd prosiectau i gerddwyr yn unig i gyfrif am 38% o ddyraniad ariannol y Rhaglen Ariannu CGHTau a 47% o gyfanswm y camau gweithredu.

Un o'r amodau drwy gydol y saith mlynedd flaenorol o'r rhaglen ariannu oedd bod yn rhaid i holl awdurdodau lleol gynnwys o leiaf un cam gweithredu a oedd o fudd i grwpiau "defnydd isel", a ddiffinnir fel "grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o'r cefn gwlad" – er enghraifft:

- defnyddwyr anabl
- pobl â phroblemau symudedd
- pobl ifanc

Petai awdurdod yn cofnodi cam gweithredu fel un "defnydd isel" yna roedd yn gam gweithredu wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y grwpiau o bobl a enwyd uchod.

Ar ôl archwilio'r data ymhellach, gweler bod grwpiau defnydd isel hefyd yn cael eu cynrychioli mewn camau gweithredu eraill nad ydynt wedi'u hanelu yn benodol at grwpiau defnydd isel.

Roedd camau a oedd yn cael eu cofnodi yn "aml-fudd" yn gamau ble bwriadwyd i fwy nag un grŵp penodol gael budd o ganlyniad i'r gwaith, gan gynnwys y grwpiau hynny sy'n gallu cael mynediad at y cefn gwlad yn haws ac yn amlach, h.y. cerddwyr a beicwyr, ynghyd â grwpiau "defnydd isel" nad ydynt yn gallu cael mynediad at y cefn gwlad mor rhwydd.

Ond mae prosiectau sydd â "budd cyffredinol i bob defnyddiwr" yn dueddol o ganolbwyntio ar gynllunio a gwella systemau rheoli.

Dengys Tabl 15 uchod fod 62 o gamau gweithredu yn "aml-fudd", h.y. o fudd i fwy nag un math penodol o ddefnyddiwr. Mae dadansoddiad o'r camau hyn fel a ganlyn:


- Roedd pum cam gweithredu yn cynnwys grwpiau "defnydd isel" a chofnodwyd eu bod o fudd i: "ddefnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symudedd; cerddwyr, beicwyr, pobl â phroblemau symudedd; a defnyddwyr anabl, cerddwyr, cerddwyr cŵn, teuluoedd â bygis"
- Roedd 57 cam gweithredu wedi'u cofnodi yn "aml-fudd" ac yn targedu cyfuniadau o ddefnyddwyr mwy abl, megis deg cam gweithredu oedd â budd penodol i "gerddwyr, beicwyr a marchogwyr"

Er mai dim ond deg cam gweithredu sy'n benodol ar gyfer "cerddwyr, beicwyr a marchogwyr", dengys dadansoddiad o bob un o'r 201 cam gweithredu fod cerddwyr a beicwyr hefyd yn cael eu cynrychioli mewn camau gweithredu sydd wedi'u targedu yn benodol at grwpiau defnydd isel

ynghyd â mewn cyfuniadau o ddefnyddwyr gwahanol. Hefyd, bydd unrhyw gamau gweithredu sydd o fudd i farchogwyr a beicwyr yn gyffredinol yn aml-fudd oherwydd bydd gwelliannau i lwybrau ceffylau a llwybrau beicio hefyd o fudd i gerddwyr.

Mae 11% o gyfanswm y dyraniad ariannol cyffredinol wedi'i ddefnyddio ar gyfer camau wedi'u hanelu at fod o fudd penodol i bobl â phroblemau symudedd.

**Siart 2**




## 6. CYLLID I GRWPIAU SY'N GWNEUD DEFNYDD ANGHYMESUR O ISEL O'R CEFN GWLAD 2016– 2017

Fel y nodir uchod, nid oedd gofyniad ar gyfer 2016–2017 i gyflenwi prosiect penodol wedi'i anelu at fodloni'n well anghenion pobl gydag anableddau, lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o'r cefn gwlad. Lle adroddodd awdurdodau am brosiectau penodol, mae'r rhain wedi'u cynnwys isod.

**Tabl 16: Math o grŵp "defnydd isel", nifer a gwerth y camau gweithredu**

| Buddiolwr | Nifer y camau gweithredu 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2016–2017 | Nifer y camau gweithredu 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2015–2016 | Nifer y camau gweithredu 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 | Gwerth y camau gweithredu (£) fel % o'r cyfanswm 2014–2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aml-fudd | 5 | 34,271 | 26.6 | 7 | 23,894 | 26 | 13 | 87,806 | 47 |
| Pobl â phroblemau | 13 | 81,290 | 63 | 9 | 66,323 | 74 | 8 | 63,347 | 34 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| symudedd | | | | | | | | | |
| Defnyddwyr anabl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 6,173 | 3 |
| Anabl, problemau symudedd a dall | 1 | 8,883 | 6.9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Budd cyffredinol i bob defnyddiwr | 1 | 738 | 0.6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pobl â phroblemau symudedd a marchogwyr | 1 | 2,500 | 1.9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cerddwyr | 2 | 1,282 | 1.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pobl ifanc, teuluoedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 14,249 | 8 |
| Grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o'r cefn gwlad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 10,495 | 6 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 6,090 | 3 |
| **CYFANSWM** | **23** | **£128,964** | **100** | **16** | **£90,217** | **100** | **32** | **£188,160** | **100** |

Ymhlith y rheini sydd wedi cael budd o'r pum cam gweithredu aml-fudd mae:

- Defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symudedd
- Cerddwyr, beicwyr, pobl â phroblemau symudedd
- Defnyddwyr anabl, cerddwyr, cerddwyr cŵn, teuluoedd â bygis
- Cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, tirfeddianwyr
- Cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, defnyddwyr llai abl

**Tabl 17: Math o waith a wnaed ar gyfer grwpiau "defnydd isel" a gwerth y gwaith hwnnw 2016–2017**

| Buddiolwr | Gwerth y camau gweithredu (£) 2016–2017 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2015–2016 | Gwerth y camau gweithredu (£) 2014–2015 |
|---|---|---|---|
| a) gwella mynediad llinellol presennol | 85,336 | 69,963 | 154,494 |
| b) creu mynediad llinellol newydd | 30,470 | 3,654 | 0 |
| c) gwella cyfleoedd mynediad eraill | 4,275 | 16,600 | 32,855 |
| g) cyflwyno dadansoddiad ymhellach o fynediad llinellol | 8,883 | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| h) arall | 0 | 0 | 811 |
| **Cyfanswm** | **£128,964** | **£90,217** | **£188,160** |

Mae'r gwaith a wnaed ar gyfer grwpiau “defnydd isel” wedi bod yn debyg i flynyddoedd blaenorol ac wedi cynnwys:

- Gwaith arwynebu a draenio ar lwybr ceffylau er mwyn ehangu llwybr mynediad hawdd i Fannau Brycheiniog
- Parhau â gwaith gwella'r arwyneb er mwyn uwchraddio llwybr troed i lwybr ceffylau ym Mhen-y-bont ar Ogwr
- Ail gam prosiect sy'n cynnwys dylunio a chael caniatadau ar gyfer adeiladu llwybr i feicwyr, cerddwyr a defnyddwyr cadair olwyn yng Ngwynedd
- Gwella mynediad at lwybrau amlddefnydd, gan ganiatáu i bobl â phroblemau symudedd gael mynediad at lwybrau yn haws – er enghraifft, yn Rhondda Cynon Taf

Mae'r gwaith a wnaed yn ystod 2016–2017 wedi bod yn eang, gan alluogi unwaith eto llawer o gamau i gael eu cyflenwi yn erbyn mwy nag un math o gam gweithredu. Mae'n galonogol gweld bod awdurdodau lleol yn parhau i gyflenwi gwaith ar lawr gwlad sy'n "ticio mwy nag un blwch", gan fanteisio i’r eithaf felly ar y Rhaglen Ariannu CGHTau.

**DIWEDD**
Paratowyd y papur hwn gan:
*Richard Dearing (Cynghorydd Gweithgareddau Hamdden Dŵr a Mynediad) a Daniel Lewis (Swyddog Cyllid CGHT)*

**Atodiad 1**

1. Sylwer, yn 2015–2016, diwygiodd Llywodraeth Cymru rai amodau mewn ymateb i adborth gan awdurdodau lleol.

Yr amodau penodol a gafodd eu heffeithio oedd:

- Cyflwynwyd ym mlwyddyn 3 – pob awdurdod i gyflenwi o leiaf un gwelliant rhwydwaith a fydd hefyd yn cynorthwyo dealltwriaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth leol neu gadwraeth bioamrywiaeth leol: **Tynnwyd o blaid canolbwyntio ar y dyletswyddau mwy cyffredinol.**

- Cyflwynwyd ym mlwyddyn 3 – caniatawyd i awdurdodau lleol ddefnyddio arian y Rhaglen Ariannu CGHTau yn y Parth Arfordirol pan oedd Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir yn newid ffocws y rhaglen o'r Parth Arfordirol a Llwybr Arfordir Cymru i ganolbwyntio'n unig ar Lwybr Arfordir Cymru mewn pryd i lansiad swyddogol y llwybr ym mis Mai 2012. **Gofyniad wedi'i dynnu ond yn parhau yn flaenoriaeth uchel.**
- Mae pob awdurdod yn cyflenwi o leiaf un gwelliant sydd wedi'i anelu at fodloni anghenion yr anabl, Cymunedau yn Gyntaf, lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o'r cefn gwlad. Yn eu holl waith gwella ar hawliau tramwy "ar lawr gwlad", dylai'r awdurdodau mynediad hefyd anelu at gydymffurfio, lle bynnag fo hynny'n bosibl, â'r arweiniad statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 69 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac ag arweiniad cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru "Trwy bob Dull Rhesymol" (a chan hynny cadw at yr egwyddor mynediad lleiaf cyfyngol i fod o fudd i gynifer o ddefnyddwyr cefn gwlad â phosibl). **Tynnwyd o blaid canolbwyntio ar y dyletswyddau mwy cyffredinol.**

**Rhestr o amodau'r Rhaglen Ariannu CGHTau a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod 2015-2016 ac a amlinellir yn Adran 11 o'r llythyr cynnig CGHT** (roedd y rhain yn ychwanegol at amodau cynnig grant arferol Cyfoeth Naturiol Cymru):

**11. Amodau ychwanegol sy'n benodol i'r prosiect neu'r rhaglen waith hon:**

**a)** Yn ychwanegol at baragraff 2 o'r amodau uchod, rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill yn ymwneud â chynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig a gyhoeddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**b)** Rhaid cyflwyno adroddiadau cynnydd gyda'r holl hawliadau ynghyd ag adroddiad diwedd blwyddyn ar fformat y cytunir arno. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth ar gynnydd wrth gyflawni cerrig milltir dros dro ac allbynnau targed y cytunir arnynt.

**c)** Rhaid i awdurdodau hawlio 40% o'u dyraniad cyllid erbyn mis Rhagfyr 2016.

**d)** Os oes arwyddion clir o danwariant tebygol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adennill yr arian a'i ddefnyddio mewn man arall neu gytuno ar gyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau a all ddefnyddio unrhyw danwariant posibl yn effeithiol.

**e)** Bydd disgwyl i awdurdodau lleol gymhwyso eu systemau archwilio eu hunain wrth ddefnyddio cyllid y Rhaglen Ariannu CGHTau a sicrhau bod eu harchwilwyr allanol yn cynnwys hyn yn eu rhaglen archwilio flynyddol.

**f)** Yn yr holl waith gwella hawliau tramwy "ar lawr gwlad", dylai'r awdurdodau

mynediad gydymffurfio ag egwyddorion mynediad lleiaf cyfyngol a hefyd anelu at gydymffurfio, lle bynnag fo hynny'n bosibl, â'r arweiniad statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 69 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac ag arweiniad cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru "Trwy bob Dull Rhesymol".

**g)** Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y CGHT ar gael ar y rhyngrwyd. Dylai manylion y ddolen we berthnasol gael eu hanfon ymlaen at Susan Jackson unwaith y mae'r amod hwn wedi'i fodloni.

**h)** Bydd awdurdodau yn cyflwyno gwybodaeth am lefel y cyllid y maen nhw'n bwriadu ei buddsoddi mewn gwaith rheoli mynediad (yn unol â'r dystiolaeth a geir yn eu dogfennau cyllideb arfaethedig) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015–2016. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn rhoi cadarnhad bod arian y Rhaglen Ariannu CGHTau sydd wedi'i ddyrannu yn ychwanegol at eu cyllid arfaethedig ar gyfer gwaith rheoli cefn gwlad cyffredinol ac na fydd yr arian newydd yn disodli arian ac adnoddau'r awdurdod ei hun ar gyfer gwaith hawliau tramwy.

**i)** Bydd y cyllid CGHT yn arian ar wahân ac ychwanegol ar gyfer gweithiau sydd â blaenoriaeth ac ni fydd yn addas ar gyfer arian cyfatebol mewn perthynas â grant cefn gwlad Cyfoeth Naturiol Cymru.

**j)** Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau wedi bodloni'r amod hwn. At ddibenion y rhaglen hon, bydd dadleoli cyllid yn cael ei ystyried fel unrhyw doriad cyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2016–2017.

**k)** Bydd gwariant cymwys o 1 Ebrill 2016 yn cael ei dalu, **cyhyd â bod y derbyniad wedi'i lofnodi yn cael ei dderbyn gan y tîm Partneriaethau a Chyllid yr Undeb Ewropeaidd o fewn un mis i ddyddiad y llythyr cynnig.**

**l)** **<u>Costau cymwys</u>**

Arian cyfalaf yw'r adnoddau gennym ni a chan hynny bydd angen ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n gyson ag arweiniad cyfrifo cyfredol ar wariant cyfalaf. Lle gall costau gael eu cyfalafu yn ddilys fel rhan o'r rhaglen CGHT, gallai eitemau y gellir eu hystyried ar gyfer cyllid gynnwys yr isod:

i) Staff newydd wedi'u cyflogi i gyflenwi elfennau allweddol o'r rhaglen CGHT. Gallai hyn gynnwys costau staff sydd wedi'u cyflogi i weithio ar y map diffiniol, datblygu gwefan a gweithgaredd cyhoeddusrwydd cysylltiedig arall, ac i adnabod a thynnu rhwystrau o lwybrau tramwy os gall y costau hyn gael eu cyfalafu yn ddilys fel rhan o'r rhaglen CGHT
ii) Buddsoddiad cyfalaf mewn gwaith gwella (gan gynnwys gwaith i bontydd, uwchraddio arwynebau llwybr troed, gwaith draenio newydd, a dargyfeiriadau ac adrannau newydd o hawliau tramwy wedi'u hyrwyddo gan yr awdurdod lleol)
iii) Buddsoddiad cyfalaf mewn gwaith gwella (gan gynnwys gwaith i bontydd, uwchraddio arwynebau llwybr troed, gwaith draenio newydd, a dargyfeiriadau ac adrannau newydd o hawliau tramwy wedi'u hyrwyddo gan yr awdurdod lleol)
iv) Cyfeirbwyntiau newydd, dodrefn (camfeydd ayyb) a byrddau gwybodaeth newydd ayyb ar hawliau tramwy.
ii) Gwelliannau penodol wedi'u cynllunio i fodloni anghenion y rheiny sydd â phroblemau symudedd (gan fodloni'r arweiniad y cyfeirir ato ym mharagraff 12 iv. isod).

**m)** Mewn achosion lle ceir amheuaeth a yw eitem benodol yn gymwys am gyllid o dan y trefniadau hyn, dylai'r awdurdod lleol ymgynghori â'i adran gyllid ei hunan i sicrhau ei fod yn ddefnydd dilys o adnoddau cyfalaf. (Bydd angen iddynt gofnodi hyn at ddibenion archwilio.)

**n)** **Ariannu yn y Parth Arfordirol**

Ers 2010-2011, mae costau cymwys y Rhaglen Ariannu CGHTau yn cynnwys blaenoriaethau CGHT o fewn dau gilomedr i'r arfordir (y "parth arfordirol") cyhyd ag nad ydynt eisoes yn cael eu hariannu trwy Raglen Datblygu Llwybr Arfordir Cymru ar wahân. Ar ôl agor Llwybr Arfordir Cymru ym mis Mai 2012, mae gwelliannau i lwybrau sy'n cysylltu cymunedau mewndirol â'r llwybr yn debyg o greu llwybrau cylchol poblogaidd, a dylai'r rhain gael eu trin fel blaenoriaeth ar gyfer cyllid CGHT gan awdurdodau arfordirol.

**o)** At ddibenion y Rhaglen Ariannu CGHTau, nid yw gwaith i gyflenwi Llwybr Arfordir Cymru yn gost gymwys ac ni ddylai cyllid CGHT gael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer Rhaglen Datblygu Llwybr Arfordir Cymru.